



Mehffin 3ydd 2018



Mae'r oedfa y bore 'ma dan ofal aelodau Llantrisant, Llanharan ac unrhyw Lan arall ddaeth i'r feu, gydag Eleri Huws yn cyfeilio. Diolch iddynt a chroeso i ymwelwyr i'n plith.

Y Suliau nesaf . . .

Mehefin 10fed - Dr Ian Hughes
(Seicolegydd) a Gwerfyl Morse gyda
Bethan yn cyfeilio

Mehefin 17eg - Sul i'r Teulu, gyda Sian
Elin yn cyfeilio

Mehefin 24ain - Emlyn Davies, gydag
Ann Griffiths ac Eleri Huws yn cyfeilio

Gorffennaf 1af - Sul Efail Isaf

Gorffennaf 8fed - bydd ymwelwyr o
gapeli Cymraeg y rhanbarth yn ymuno
gyda ni am yr oedfa. Os oes gennych
syniad am oedfa hwyliog, plis
mynnwch air gyda Geraint Rees.

Croesawu ymwelwyr tramor

Bydd tua 30 o ymwelwyr o Fadagasgar yn ymweld â nifer o gapeli yn y de yn ystod yr wythnos nesaf. Mae eu hymweliad â Chymru yn rhan o ddathliadau 200 mlwyddiant anfon cenhadon i Fadagasgar.

Cafwyd cais munud olaf gan Undeb yr Annibynwyr yn gofyn i'r Tabernacl a fyddai modd paratoi cinio ysgafn iddynt ddydd Mawrth nesaf, 5 Mehefin. Gofynnir i unrhyw un sy'n fodlon helpu mewn rhyw ffordd i aros ar ôl am ychydig funudau ar ddiwedd y gwasanaeth. Diolch yn fawr.

Mae gwybodaeth reolaidd am y capel ar
www.tabernacl.org

Mae llwyth o bethau amrywiol a doeth ar
www.cristnogaeth21.cymru

Cyhoeddiadau at:

geraintrees@hotmail.com

**Os hoffech ddefnyddio'r ganolfan neu'r
capel, ebostiwch**
carolinerees2@hotmail.com

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 5^{ed} Mehefin. Os oes adroddiad gennych i'w gyflwyno, neu fater yr hoffech ei godi, yna cysylltwch â Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk neu 07710 237327) erbyn nos Lun 4^{ydd} Mehefin fan bellach.

Rhybudd

Yng nghyfarfod y Bwrdd ddechrau Mai, adroddwyd nad yw'r fynwent yn gwbl ddiogel ac yn arbennig felly i blant chwarae ynddi. Felly apeliwn ar rieni, athrawon yr Ysgol Sul ac eraill i wneud yn siŵr bod y plant yn eu gofal yn cadw draw o'r fynwent rhag iddynt gael niwed.

Canlyniadau Etholiadau'r Undeb

Y Parchg. Dyfrig Rees, Y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr gafodd ei ethol i olynu'r Parchg. Ddr. Geraint Tudur fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, a'r Parchg. Beti-Wyn James, Caerfyrddin, yw'r Darpar-lywydd newydd. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Diolch

Yn sgil y ddeddfwriaeth newydd ar breifatrwydd data personol, carem ddiolch am amynedd yr aelodau hynny gyda chyfrif e-bost sydd wedi rhoi eu caniatâd i'r eglwys barhau i anfon negeseuon e-bost atynt ar ôl 25 Mai. Mae ambell un heb ymateb i'r negeseuon niferus a anfonwyd yn gofyn am ganiatâd, ond wrth lwc nid yw'n rhy ddiweddar i wneud hynny am rai dyddiau eto. Cofiwch ymateb i'r cais cyn gynted â phosib rhag i chi golli'r gwasanaeth hwn yn gyfan gwbl.

**SESIWN EFAIL ISAF NESAF yn y
Carpenters, Mehefin 9fed am 8 o'r gloch**



Mae crefydd ar ei orau pan fydd yn ein gorfodi i ofyn cwestiynau anodd i ni'n hunain. Mae ar ei waethaf pan fydd yn ein twyllo i feddwl fod gennym ni'r holl atebion i bawb arall.....
Archibald Mcleish

Llongyfarchiadau mawr i BAWB gyfrannodd mor wych at lwyddiant Eisteddfod yr Urdd wythnos dwetha!

Mae croeso i bawb yng nghynhadledd Cristnogaeth 21 yn Salem Treganna.

Bore gwerth ei fynychu cyn mynd ymlaen i Tafwyl!

**Cynhadledd
Flynyddol
Cristnogaeth 21
Dydd Sadwrn,
30 Mehefin 2018**

'Gwneud Synnwyr o'r Ysgrythur'

yng nghwmni'r
Gwir Barchedig Jeffrey John
Deon St. Albans

10:00 Coffi
10:30 Dechrau'r Sesiwn
1:00 Cinio – pawb i ddod â chinio
1:30 Cyfarfod Busnes
2:15 Diwedd
Tâl Mynediad: £10 ar y dydd

**Capel Salem
Treganna
Caerdydd
CF5 1QF**

